# Trafodaeth Caerffili -
# Pennu cyllideb y Cyngor 2023/24

Yn ddiweddar, gwnaethon ni ofyn i drigolion gynnig eu barn ar y gwasanaethau y dylai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili eu blaenoriaethu dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Roedd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol iawn, a gwnaethon ni ei defnyddio i helpu llunio cynigion cyllideb ddrafft y Cyngor ar gyfer 2023/24. Cafodd cynigion y gyllideb ddrafft eu cyflwyno i'r Cabinet ar 18 Ionawr 2023 a bydd cyfnod o ymgynghori yn awr yn cael ei gynnal cyn cwblhau'r gyllideb mewn cyfarfod y Cyngor ar 23 Chwefror 2023.

Mae eich barn yn bwysig gan y bydd yn helpu llywio'r gyllideb derfynol ar gyfer 2023/24!


**Felly, cymerwch amser i ateb y cwestiynau isod erbyn DYDD MERCHER 8 CHWEFROR 2023.**

---

**Un o'r prif gynigion yn yr adroddiad yw defnydd untro o gronfeydd wrth gefn y Cyngor yn 2023/24, sef cyfanswm o £15.051 miliwn. Mae gan Gaerffili gronfeydd wrth gefn iach, ar hyn o bryd. Yn y bôn, y rhain yw ein harbedion rydyn ni naill ai wedi'u clustnodi ar gyfer prosiectau penodol neu wedi'u rhoi'n ddiogel o'r naill du ar gyfer diwrnod glawog. Felly, dim ond unwaith y mae'r cronfeydd wrth gefn hyn yn gallu cael eu defnyddio. Mae'r defnydd unwaith ac am byth o gronfeydd wrth gefn ac arbedion dros dro yn 2023/24 yn ateb tymor byr a bydd yn rhoi amser i ni ail-lunio ein gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion ein cymunedau'n barhaus wrth weithio gyda llawer llai o arian oherwydd yr heriau ariannol sylweddol sydd o'n blaenau.**

**Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dull hwn ar hyn o bryd?**

☐ Cytuno'n gryf ☐ Cytuno ☐ Anghytuno ☐ Anghytuno'n gryf ☐ Ddim yn gwybod



**Mae cynigion y gyllideb ddrafft yn cynnwys arbedion parhaol arfaethedig (£5.559 miliwn) ac arbedion dros dro (£6.862 miliwn), sef cyfanswm o £12.421m. Ar ôl darllen ac ystyried y rhestr o gynigion arbedion, nodwch a ydych yn cytuno neu'n anghytuno'n benodol ag unrhyw un neu ragor o'r rhai ar y rhestr.**

**Dewiswch hyd at 3.**

| **Cynigion arbed rwy'n cytuno â nhw:** |
|---|
| |
| |
| |
| **Cynigion arbed rwy'n anghytuno â nhw:** |
| |
| |
| |

---

**Fel rhan o'n cynllun ni, er mwyn sicrhau'r arbedion angenrheidiol, rydyn ni'n cynnig cynnydd o 7.9% yn nhreth y cyngor ar gyfer 2023/24. Byddai hyn yn cynhyrchu £4.880 miliwn mewn incwm net ychwanegol i'r Cyngor. Byddai hyn cyfystyr â £1.91 yr wythnos yn ychwanegol ar gyfer eiddo Band D. Byddai hyn yn dal i sicrhau bod gan y Fwrdeistref Sirol un o'r lefelau isaf o ran treth y cyngor ledled Cymru. Gan ystyried hyn a lefel yr arbedion angenrheidiol, dewiswch un o'r opsiynau canlynol i roi gwybod i ni p'un sydd well gennych o ran treth y cyngor. Dewiswch un yn unig.**

☐ Rwy'n cefnogi'r cynnydd arfaethedig yn nhreth y cyngor (7.9%) a fyddai'n golygu cynnydd o £1.91 yr wythnos ar gyfer eiddo Band D.

☐ Nid wyf yn cefnogi'r cynnydd arfaethedig yn nhreth y cyngor – mae'n ormod. Ond, byddwn i'n cefnogi cynnydd llai yn nhreth y cyngor. (Noder – byddai pob gostyngiad o 1% o'r 7.9% arfaethedig yn golygu bod yn rhaid i ni ddod o hyd i £606,000 o arbedion ychwanegol)

☐ Rwy'n cefnogi'r cynnydd arfaethedig yn nhreth y cyngor ond byddwn i'n fodlon talu cynnydd mwy fyth pe bai angen. (Byddai pob cynnydd o 1% uwchlaw'r 7.9% arfaethedig yn golygu sicrhau £606,000 yn llai o arbedion.)

☐ Nid wyf yn cefnogi cynnydd yn nhreth y cyngor ac rwy'n deall y byddai hyn yn golygu y byddai'n rhaid i'r Cyngor ddod o hyd i £6.147 miliwn o arbedion mewn mannau eraill er mwyn mantoli'r gyllideb.

**Os ydy'ch ymateb i unrhyw un neu ragor o'r cwestiynau yn yr arolwg hwn wedi'i ddylanwadu (yn gadarnhaol neu'n negyddol) oherwydd unrhyw un neu ragor o'r canlynol – tarddiad ethnig, rhywedd, oed, statws priodasol, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd, cred neu ddiffyg cred, defnydd o'r Gymraeg, Iaith Arwyddion Prydain neu ieithoedd eraill, cenedligrwydd neu gyfrifoldeb dros ddibynyddion – rhowch fanylion isod.**

☐

## Dywedwch ychydig wrthym ni amdanoch chi'ch hun…

Mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn cyflawni sampl cynrychioliadol o ymatebion er mwyn darparu safbwyntiau sy'n gwbl gynrychioliadol o boblogaeth ein Bwrdeistref Sirol. Felly, byddai o gymorth mawr pe gallech ateb y cwestiynau canlynol amdanoch chi'ch hun.

- Rwy'n ymateb fel un o drigolion Bwrdeistref Sirol Caerffili ☐
- Rwy'n ymateb fel cynrychiolydd grŵp neu sefydliad y trydydd sector ☐
- Rwy'n ymateb fel cynrychiolydd sefydliad arall yn y sector cyhoeddus ☐
- Rwy'n ymateb fel person busnes lleol ☐
- Rwy'n ymateb fel aelod etholedig lleol ☐
- Rwy'n ymateb fel aelod o staff ☐

Arall, nodwch: ____________________

**Fy nghod post yw:** ____________________

**Rydw i:**

- Yn wryw ☐
- Yn fenyw ☐
- Mae'n well gen i hunan-ddisgrifio, ☐

nodwch: ____________________

- Gwell gen i beidio â dweud ☐

**Beth yw eich prif iaith?**

Saesneg ☐ Cymraeg ☐

Arall
(gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain) ☐

**Oes gennych chi anabledd?**

Oes ☐ Nac oes ☐

Gwell gen i beidio â dweud ☐

**Diolch am lenwi'r arolwg hwn.**
Dychwelwch y ffurflen hon i unrhyw un o brif swyddfeydd y Cyngor eich Llyfrgell neu eich Canolfan Hamdden agosaf.

Fel arall, gallwch chi ddychwelyd yr arolwg drwy'r post i: Swyddog Ymgynghori ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd, Uned Polisi Corfforaethol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed CF82 7PG

**Dychwelwch eich arolwg erbyn DYDD MERCHER 8 CHWEFROR 2023.**

**Hysbysiad preifatrwydd:**
Mae gennych chi nifer o hawliau mewn perthynas â'r wybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu. Am ragor o wybodaeth am eich hawliau a sut rydyn ni'n prosesu'ch gwybodaeth, ewch i:
**www.caerffili.gov.uk/CaerphillyDocs/FOI/PrivacyNotices/Privacy-Notice-Consultations-Surveys-cy.aspx**